OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 1390 (Cy.140)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *18 Mai 2004* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Mai 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 31 o Ddeddf Iechyd 1999(**1**) ac adran 126(4) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**2**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a'r holl bwerau eraill sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 31 Mai 2004.

### Diwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000

**2.**—(1) Diwygir Reoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliadau 2(1), 3(1)(a), 4(3), 7(2), a 9(2) rhodder "Bwrdd Iechyd Lleol" yn lle "Awdurdod Iechyd"(**4**).

(**1**) 1999 p.8. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 31 o'r Ddeddf yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd y diwygiad i Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672 a wnaed gan adran 66(5)(c) o'r Ddeddf (*gweler* erthygl 2(a) o'r Gorchymyn ac adran 22(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)). *Gweler* adran 62(1) a (4) o'r Ddeddf ynghylch y pŵer i wneud rheoliadau ac ynghylch cymhwyso adran 126 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (1977 p.49) ynghylch y pŵer i wneud rheoliadau.

(**2**) 1977 p.49. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 126(4) o'r Ddeddf yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd eithriadau cynnwys y Ddeddf (gydag eithriadau) yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672 (*gweler* erthygl 2(a) o'r Gorchymyn ac adran 22(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)).

(**3**) O.S. 2000/2993 (Cy. 193).

(**4**) Diddymwyd awdurdodau iechyd yng Nghymru gan Orchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003 O.S. 2003/813 (Cy.98). Sefydlwyd Byrddau Iechyd Lleol gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) 2003, O.S. 2003/148 (Cy.18).

(3) Ar ôl rheoliad 10(2), rhodder —

"(2A) Pan fydd awdurdod lleol yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth neu drefniadau amgen, caiff cydbwyllgor sy'n cael ei ffurfio o dan baragraff (2) gynnwys unrhyw aelod o'r awdurdod p'un a yw'r aelod hefyd yn aelod o weithrediaeth neu Fwrdd yr awdurdod.".

(4) Ar ôl rheoliad 10(4), ychwaneger —

"(4) Ym mharagraff (2A) —

"Mae i "Bwrdd" ("*Board*") yr un ystyr ag yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001(**5**);

Mae i "gweithrediaeth" a "trefniadau gweithrediaeth" yr ystyr a roddir i "*executive*" ac "*executive arrangements*" yn Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**6**));

Mae i "trefniadau amgen" yr ystyr a roddir i "*alternative arrangements*" yn Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**).

*D. Elis-Thomas*
18 Mai 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) O.S. 2001/2284.
(**6**) 2000 p.22. Mae O.S. 2001/2284 (Cy.173) (fel y'i diwygiwyd) yn darparu yn rheoliad 4 ar gyfer ffurf y trefniadau amgen yng Nghymru. Diwygiwyd rheoliad 4 o O.S. 2001/2284 gan O.S. 2002/810 (Cy.90) ac O.S. 2001/3711 (Cy.307).
(**7**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Gwnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru Reoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000 ("Rheoliadau 2000") o dan adran 31 o Ddeddf Iechyd 1999 ac adran 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

Mae Rheoliadau 2000 yn darparu fframwaith ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac awdurdodau lleol. Yn arbennig mae Rheoliadau 2000 yn pennu'r cyrff gwasanaeth iechyd gwladol y maent yn gymwys iddynt, ac yn darparu ar gyfer ffurfio cydbwyllgorau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoli'r trefniadau partneriaeth hynny.

Mae rheoliad 2(2) yn diwygio Rheoliadau 2000 drwy roi cyfeiriadau at Fyrddau Iechyd Lleol yn lle'r cyfeiriadau presennol at Awdurdodau Iechyd.

Mae rheoliad 2(3) a 2(4) yn diwygio Rheoliadau 2000 i ddarparu, pan fydd awdurdod lleol yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth neu drefniadau amgen o dan Ran II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, y caiff unrhyw aelod o'r awdurdod hwnnw eistedd ar y cydbwyllgor, p'un a yw'r aelod hwnnw hefyd yn aelod o weithrediaeth neu Fwrdd yr awdurdod neu beidio.